# #CrowdCymru: Llawlyfr y Prosiect



*Delwedd: Casgliad Ffotograffig Clwb Rygbi ac Athletau Casnewydd / Archifau Gwent*



Cymeradwywyd:

Cynnwys

**1. Cyflwyniad**

**2. Llawlyfr y Platfform**
2.1. Dechrau ar y gwaith trawsgrifio
2.2. Canllawiau i drawsgrifwyr
2.3. Arbed gwaith
2.4. Aseinio cynnwys
2.5. Dechrau ar y gwaith o dagio ffotograffau
2.6. Dangosfwrdd y defnyddiwr
2.7. Chwyddo
2.8. Cofnodi oriau gwaith
2.9. Adolygu

**3. Rheoli'r prosiect**
3.1. Recriwtio gwirfoddolwyr
3.2. Cofrestru
3.3. Dwyieithrwydd
3.4. Cefnogi gwirfoddolwyr
3.5. Hyrwyddo a Marchnata
3.6. Brandio
3.7. Gweithio ar brosiect a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
3.8. Holiadur adborth
3.9. Gwersi a ddysgwyd
4. Gwybodaeth ategol yn ymwneud â chasgliadau penodol
5. Adnoddau defnyddiol
6. Manylion cyswllt ac dolenni prosiectau ar-lein

## 1. Cyflwyniad

Prosiect gwirfoddol yn ymwneud ag archifau digidol yw #Crowd Cymru ac mae'n cael ei ariannu gan **Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol** a'i redeg ar y cyd gan **Archifau Gwent**, **Archifau Morgannwg** a **Chasgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd**. Mewn archifau ledled Cymru ceir miliynau o gofnodion heb eu hail, ond mae llawer ohonynt wedi cael eu catalogio i raddau minimal ac felly mae'n anodd eu hadnabod a dod o hyd iddynt. Mae'r prosiect hwn yn ffrwyno gwybodaeth unigolion mewn cymunedau ledled Cymru a thu hwnt, er mwyn cyfoethogi ein cyd-dreftadaeth er budd cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol - yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Ceir mynediad i'r system ddigidol ddwyieithog hon trwy blatfform torfoli a sefydlwyd gan **Lyfrgell Genedlaethol Cymru**, ac mae'n galluogi gwirfoddolwyr sy'n gweithio o bell i drawsgrifio'r casgliadau treftadaeth digidol a gedwir o fewn y storfeydd hyn a'u tagio. Caiff yr holl ddata sy'n gysylltiedig â'r platfform hwn eu storio'n ddiogel ar system allanol yn yr Undeb Ewropeaidd gan **Digerati**, a hynny mewn ffordd sy'n cydymffurfio â safonau rhyngwladol ac arfer gorau ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth.

Yn ogystal â'r platfform, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn darparu cymorth technegol llawn a chyswllt helaeth gyda Swyddog y Prosiect.

Prosiect llwyr-ddigidol yw hwn, ac mae ar gael i unrhyw un, yn unrhyw le, os oes ganddynt fynediad ar-lein.
Gall ein gwirfoddolwyr gyfrannu cymaint neu gyn lleied o amser ag y dymunant a chânt ddewis pa gasgliad y maent yn dymuno gweithio arno.
Gallai fod o ddiddordeb arbennig i'r rheiny a fyddai efallai wedi eisiau gwirfoddoli gydag archifau De Cymru ond nid ydynt yn gallu teithio neu maent yn byw'n rhy bell i ffwrdd.
Mae hyfforddiant ar gael ar-lein gan gynnwys hyfforddiant un-i-un pan fo'r angen yn codi.

**Prif dasgau:** Trawsgrifio testun / Tagio pobl, lleoedd, digwyddiadau ayb. / Data sy'n cyfoethogi.
**Hanfodol:** Sgiliau TG / Y gallu i ddilyn canllawiau ar-lein / Sylw i fanylder.
**Dymunol:** Diddordeb yn hanes Cymru a'i diwylliant.




Cymeradwywyd:

## 2. Llawlyfr y Platfform

Cyn i wirfoddolwyr allu dechrau gweithio, mae gofyn iddynt gofrestru ar y platfform. Mae hyn yn eu galluogi i greu enw defnyddiwr a chyfrinair. Anfonir gwahoddiad i gofrestru trwy e-bost. I ofyn am ddolen anfonwch neges e-bost at un o'r cysylltiadau sydd wedi'u rhestru ar y dudalen olaf. Dim ond trwy'r broses hon y mae gwirfoddolwyr yn gallu cael mynediad at y casgliadau.

Dyma'r ddolen at yr Hafan: https://torf2.llyfrgell.cymru/s/crowd-cymru
Yn y gornel uchaf ar y dde, gallwch weld gwirfoddolwr sydd wedi mewngofnodi yn barod fel trawsgrifiwr o dan yr enw defnyddiwr y maen nhw wedi'i ddewis, sef **JenEva.**
I'r chwith mae yna ddewislen i fynd at y fersiwn Gymraeg
Bydd eicon y GLOCH yn dweud wrthych os oes unrhyw negeseuon neu ddiweddariadau

Ar hyn o bryd, dim ond y casgliad cyntaf a ychwanegwyd at y platfform [Prosiect Edward Thomas, sydd wedi'i gwblhau erbyn hyn], sydd ar yr Hafan.
Er mwyn gweld yr holl gasgliadau yn ymwneud â'r prosiect hwn wedi eu rhestru gyda'i gilydd, cliciwch ar y botwm **Prosiectau** ar frig yr Hafan.







Cymeradwywyd:

### 2.1. Dechrau ar y gwaith trawsgrifio

Er mwyn dewis casgliad i ddechrau gweithio arno, cliciwch ar y botwm PROSIECTAU ar frig yr Hafan a dewiswch o'r rhestr trwy glicio ar EWCH I'R PROSIECT.


Ar hafan pob prosiect [casgliad] fe welwch chi bedwar bocs yn dangos ystadegau yn ymwneud yn benodol â'r prosiect hwnnw:

- Mae'r bocs HEB GYCHWYN yn dangos nifer y dogfennau yn y casgliad nad oes unrhyw un wedi gweithio arnynt eto
- Mae'r bocs AR Y GWEILL yn dangos sawl dogfen sydd ar waith
- Mae'r bocs MEWN ADOLYGIAD yn dangos nifer y dogfennau a gwblhawyd ac sy'n aros i gael eu hadolygu
- Mae'r bocs CWBLHAWYD yn dangos nifer y dogfennau sydd wedi cael eu cwblhau a'u hadolygu




**NODWCH!**
**Mae'r system hon yn cyfeirio at ddogfennau/delweddau unigol fel CANFASAU a chasgliad o ddogfennau/delweddau cysylltiedig fel MANIFFEST. Er enghraifft, cyfeirir at ddyddiadur fel maniffest ond cyfeirir at dudalennau unigol fel canfasau.**

Efallai y byddai rhywun sy'n dechrau o'r newydd yn dechrau trwy glicio ar **EWCH AT FANIFFEST AR HAP** [bydd y system yn dewis canfas drosoch chi] neu, efallai y byddant yn dymuno pori trwy'r canfasau a dewis eu canfas eu hunain trwy sgrolio i lawr y dudalen i weld yr holl faniffestau sy'n gysylltiedig â chasgliad [yn yr achos hwn, naw dyddiadur].
Mae nifer y "delweddau" o dan bob mân-lun yn dangos nifer y canfasau [yn yr achos hwn, tudalennau] sydd wedi eu cynnwys o fewn y maniffest hwnnw [yn yr achos hwn, dyddiadur].
Er enghraifft, yn yr ail faniffest, y nifer yw 154 ac mae hyn yn dangos bod 154 o dudalennau yn gysylltiedig â'r dyddiadur hwnnw.



Unwaith y bydd maniffest wedi cael ei ddewis, mae pob canfas yn ymwneud â'r maniffest yn ymddangos fel mân-lun.


Cofiwch fod y rhan fwyaf o wirfoddolwyr yn clicio ar y maniffest cyntaf ac yna'n dewis y canfas cyntaf i weithio arno.
Felly, os oes nifer fawr o wirfoddolwyr yn gweithio ar gasgliad, gallai fod yn ddoeth dewis maniffest sydd ymhellach i lawr y rhestr ac yna dewis canfas ychydig o dudalennau ymlaen. Bydd hyn yn eich arbed rhag chwilio am ganfasau sydd ar gael a bydd y canfasau sydd ar gael yn mynd yn llai ac yn llai wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.



Cliciwch ar y canfas a ddewiswyd gennych ac yna cliciwch ar y botwm glas CYFRANNU ar y chwith er mwyn i'r dudalen ddod yn fyw ac er mwyn i chi allu ei golygu. Byddwch yn gweld y ddelwedd a'r meysydd cysylltiedig ar y dde er mwyn i chi weithio arnynt. Fodd bynnag, os oes rhywun arall yn gweithio ar y canfas yn barod, byddwch yn cael neges i ddweud CYRHAEDDWYD Y NIFER FWYAF O GYFRANIADAU yn lle'r botwm CYFRANNU. Os bydd hyn yn digwydd, bydd gofyn i chi ddewis canfas arall i weithio arno.

Mae'r ddogfen hon yn dudalen mewn dyddiadur ac mae modd gweithio yn y meysydd ar y dde: **dyddiad, trawsgrifiad, enwau lleoedd** a **sylwadau o bwys**.

Defnyddiwch eicon y CLO ar y chwith i agor bocs testun ar gyfer eich NODIADAU PERSONOL yn ymwneud â'r canfas hwn.
Dim ond chi fydd yn gallu gweld y nodiadau hyn.






Cymeradwywyd:

Cyn dechrau gweithio ar unrhyw gasgliad am y tro cyntaf, cofiwch y gallai fod rheolau gwahanol yn ymwneud â chasgliadau penodol.
Ar gyfer y prosiect hwn, rydym wedi ychwanegu adran o'r enw ***Gwybodaeth ategol yn ymwneud â chasgliadau penodol***.
Fodd bynnag, dyma reolau cyffredinol ar gyfer yr holl waith trawsgrifio.

## 2.2 Canllawiau cyffredinol i drawsgrifwyr

**Gall fod yn anodd darllen llawysgrifen**
Cymharwch lythrennau tebyg yn y ddogfen i'ch helpu i gadarnhau eich bod yn darllen y geiriau'n gywir.
Yn aml, bydd y llythrennau'n debyg neu'r un peth trwy gydol dogfen y mae'r un unigolyn wedi ei hysgrifennu mewn llawysgrifen.
Ond, os na allwch bennu beth yw'r gair, defnyddiwch **[annarllenadwy]** yn lle'r gair.

**Os oes camgymeriad yn y testun**
Gellir defnyddio "sic" mewn cromfachau ar ôl gair sy'n ymddangos yn anghywir i ddangos eich bod wedi dyfynnu'r gair yn union fel y caiff ei nodi yn y gwreiddiol.
Er enghraifft, *Arwr yr Hen Rhufein [sic].*
Mae SIC yn dalfyriad o'r ymadrodd Lladin "sic erat scriptum" - sef "dyma sut y cafodd ei ysgrifennu".

**Wrth i chi drawsgrifio, gwnewch yn siŵr eich bod yn arbed eich gwaith yn rheolaidd.**
Cliciwch ar y botwm **ARBED TAN WEDYN** i arbed eich cynnydd a'ch holl waith caled.

**Ceisiwch gofio pwyso'r botwm 'return' ar y bysellfwrdd wrth i chi ddod i ddiwedd llinell neu baragraff.**
Pan fydd eich testun yn dechrau llinell newydd, byddwch chi'n dechrau llinell newydd hefyd.
Mae'r bocs trawsgrifio yn edrych fel petai'n gwneud hyn yn awtomatig, ond nid yw hynny'n digwydd, a phan fydd adolygydd yn edrych ar eich trawsgrifiad bydd yn edrych fel un llinell barhaus.

**Y nod wrth drawsgrifio yw gwella'r gallu i chwilio.**
Felly, wrth drawsgrifio, peidiwch â phoeni'n ormodol am gyfateb fformat y ddogfen wreiddiol fel toriadau mewn llinellau/paragraffau, cysylltnodau, geiriau sydd wedi eu tanlinellu, mewn llythrennau bras neu mewn italeg.

**Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gallu cwblhau trawsgrifio'r ddogfen gyfan. Mae pob gair yr ydych yn ei drawsgrifio yn gymorth i wella'r canlyniadau chwilio**

## 2.3 Arbed eich gwaith

Y botwm arbed cyffredinol ar y platfform hwn yw'r botwm **ARBED TAN WEDYN** . Defnyddiwch y botwm hwn i arbed eich gwaith hyd nes eich bod chi eisiau dechrau unwaith eto. Rydyn ni'n argymell eich bod yn defnyddio'r botwm hwn yn rheolaidd wrth i chi deipio, fel y byddech chi'n ei wneud wrth weithio ar ddogfen WORD. Bydd yn eich atal rhag colli gwaith os oes unrhyw beth yn tarfu ar signal eich rhwydwaith WiFi ac mae'r dudalen yn rhewi.
Cliciwch ar CYFLWYNO dim ond os ydych wedi gorffen trawsgrifio dogfen ac eisiau ei hanfon i gael ei hadolygu.
Os ydych yn clicio ar y botwm CYFLWYNO mewn camgymeriad, peidiwch â phoeni - anfonwch neges e-bost at un o'r cysylltiadau ar y dudalen olaf ac fe fyddan nhw'n gallu dychwelyd y ddogfen atoch er mwyn i chi ei chwblhau.




## 2.4 Aseinio detholiad o ganfasau cysylltiedig i chi'ch hun

Os ydych yn trawsgrifio cyfres o ganfasau cysylltiedig, gall fod yn rhwystredig os fydd rhywun arall yn dechrau gweithio ar yr un nesaf cyn i chi gael cyfle i fynd ato ac mae hyn yn gallu tarfu ar lif eich gwaith. Mae yna ddwy ffordd i chi gymryd eich amser i weithio trwy gyfres o ganfasau cysylltiedig gan wybod na fydd unrhyw un arall yn dechrau gweithio arnynt cyn i chi orffen.

Yn gyntaf, gallwch fynd i mewn i bob canfas ar wahân [trwy glicio ar y botwm CYFRANNU] a rhoi ambell i air yn y maes trawsgrifio ac yna clicio ar ARBED TAN WEDYN - bydd hyn yn arbed y canfas ar eich cyfer chi yn awtomatig.

Yn ail, gallwch ofyn am aseinio detholiad o ganfasau [neu faniffest cyflawn] atoch chi yn unig.
Gwnewch nodyn o'r hyn yr ydych am ei aseinio i chi'ch hun ac anfonwch y manylion mewn neges e-bost at Cymorth Technegol i ofyn iddynt eu haseinio i chi.


Sicrhewch fod eich neges e-bost yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
**Enw'r casgliad, manylion y maniffest a rhif y canfas [tudalen]**
Mae'n hawdd i chi gopïo a phastio hyn o'r platfform [gweler y ddelwedd uchod].



Cymeradwywyd:

## 2.5 Dechrau ar y gwaith o dagio ffotograffau

Nid yw pob casgliad yn seiliedig ar drawsgrifiad, ac mae yna gasgliadau ffotograffig hefyd y mae angen eu tagio.
**Yn syml, ystyr tagio yw ychwanegu geiriau at ddelweddau fel eu bod yn haws eu chwilio**.




Dechreuwch trwy ddewis ffotograff yr hoffech weithio arno.

I ychwanegu eich tag cyntaf, cliciwch ar y botwm DIFFINIO ARDAL sy'n ymddangos ar y dde i'r maes tagio.

Yna, cewch neges yn dweud NID YDYCH WEDI DEWIS ARDAL. CRËWCH FOCS O AMGYLCH Y DDELWEDD I DDIFFINIO ARDAL.

Cliciwch ar DIFFINIO ARDAL yn y bocs du.

Nawr, rhowch eich cyrchwr unrhyw le ar y ddelwedd a'i dynnu i greu bocs o amgylch gwrthrych neu elfen o'r ffotograff.
Yna, byddwch yn gweld dwy neges yn ymddangos. Cliciwch ar CADARNHAU i symud ymlaen neu GWAREDU'R DETHOLIAD er mwyn dechrau eto. Unwaith y byddwch wedi clicio ar CADARNHAU, bydd eich bocs yn troi'n goch.

Nawr rhowch un gair sy'n disgrifio'r hyn sydd yn eich bocs coch trwy ei deipio yn y bocs ar y dde.
Unwaith i chi ddechrau teipio, byddwch yn gweld rhestr o eiriau yn ymddangos o'r ddewislen.
Dewiswch y tag sy'n cynrychioli cynnwys eich bocs orau.


Rydyn ni'n defnyddio **tagiau Wikidata** - mae defnyddio geirfa safonol sydd wedi ei rheoli yn cyfyngu ar yr hyn y gallwch ei dagio, ond mae'n golygu y bydd lawer yn haws chwilio'r cynnwys. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tagiau yn yr eirfa yn barod, ond mae'r enw ychydig yn wahanol.
Os nad ydych yn dod o hyd i'ch tag, neu os nad yw'r disgrifiad yn cyfateb i'r hyn yr ydych yn ei weld, yna dylai aralleirio'r tag eich helpu i ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn chwilio amdano. E.e., ar gyfer 'tu mewn i fwthyn' dylech ddefnyddio 'tu mewn i adeilad' a 'bwthyn' fel dau dag ar wahân.

Gallai ceisio chwilio'n ehangach [gan gynnwys darllen erthygl ar Wikipedia am yr eitem yr ydych am ei thagio] fod o gymorth hefyd.

Ceisiwch dagio popeth yr ydych yn ei weld yn y ffotograff




Cymeradwywyd:




Unwaith y byddwch wedi gosod eich tag, dylai'r bocs YCHWANEGU TAG ARALL ddod yn fyw eto ar unwaith, er mwyn i chi allu ychwanegu tag arall.

Os na fydd hyn yn digwydd yn awtomatig, ceisiwch glicio ar yr eicon bach du siâp TŶ sy'n ymddangos uwchben y bocs tagio [dangosir yma mewn cylch coch] neu, cliciwch ar y botwm ARBED TAN WEDYN, dewch allan o'r ddelwedd, ac yna ewch yn ôl i mewn a bydd y bocs YCHWANEGU TAG ARALL yn fyw.

.





O dan y meysydd tagio, efallai y bydd gofyn i chi ychwanegu ENW UNIGOLYN
Er mwyn gwneud hyn, cliciwch ar DIFFINIO ARDAL.

Crëwch focs o amgylch wyneb rhywun.
Bydd eich detholiad yn ymddangos yn y maes unigolyn, ac os ydych yn hapus gyda hyn, cliciwch ar CADARNHAU.

Bydd maes yn ymddangos oddi tano er mwyn i chi fwydo enw'r unigolyn i mewn.

Cliciwch ar fotwm YCHWANEGU UNIGOLYN ARALL i arbed yr hyn yr ydych wedi ei fwydo i mewn a dechrau ar un arall.

Llenwch y maes hwn dim ond os ydych yn gwybod enw rhywun, neu os oes rhestr o enwau wedi eu hargraffu ar y ddelwedd [fel yn y ddelwedd hon].





Efallai y gofynnir i chi ychwanegu CAPSIWN neu DDISGRIFIAD hefyd

Y capsiwn yw unrhyw destun sy'n ymddangos ar y ddelwedd - yma gallwch weld y teitl, is-deitlau ac o dan y ddelwedd rhestr o enwau.
Byddai hyn i gyd yn mynd i mewn i faes y capsiwn.


Y disgrifiad yw beth yn union yr ydych yn ei weld yn y ddelwedd.
Er enghraifft, yma gallech fewnbynnu'r canlynol: *Ffotograff lliw wedi'i fframio a'i fowntio yn dangos tîm XV Cyntaf Casnewydd ar gyfer tymor 1992-93. Mae'r tîm cyfan a phum swyddog mewn siwt yn sefyll o flaen adeilad o friciau coch gyda phlac enfawr ar y wal yn dangos arfbais a'r dyddiad 1875. Mae pob aelod o'r tîm yn gwisgo crysau streipiog oren a du a siorts du*…ayb.

## 2.6 Dangosfwrdd y defnyddiwr




Gallwch weld beth sydd ar waith gennych trwy glicio ar fotwm **Dangosfwrdd y Defnyddiwr** ar frig y sgrin.

Mae'r tab **Trosolwg** yn dangos yr holl gasgliadau sydd ar gael i weithio arnynt ond efallai y bydd **Fy Safleoedd** yn dangos dolenni eraill. Defnyddiwch safle Crowd Cymru yn unig os gwelwch yn dda




Mae'r tab **Cyfraniadau** yn bersonol i chi.


Mae'r tri bocs yn dangos eich ystadegau chi.

Mae EICH CYFRANIADAU yn rhestru'r canfasau hynny sydd ***ar y gweill*** gennych ar y pryd, unrhyw beth yr ydych wedi ei gwblhau a'i ***gyflwyno i'w adolygu*** neu unrhyw beth sydd wedi cael ei ***adolygu a'i dderbyn***.

Nodwch y bydd y tab **Adolygiadau** yn ymddangos ar gyfrifon adolygwyr penodol yn unig; os hoffech gael eich ystyried fel Adolygydd, anfonwch neges e-bost at eich Swyddog Prosiect neu Gymorth Technegol.



Cymeradwywyd:




## 2.7 Manteisiwch i'r eithaf ar y botymau CHWYDDO

Ar y platfform hwn mae swyddogaeth chwyddo IIIF wedi ei galluogi ac mae hynny'n golygu eich bod yn gallu defnyddio'r botymau adio a thynnu [sydd wedi eu tanlinellu'n goch yma], i fynd yn agosach a symud y ddelwedd o le i le. Cliciwch ar eicon y TŶ ar unrhyw adeg i weld y ddelwedd ar y maint arferol unwaith eto.

## 2.8 Cofnodi oriau gwaith gwirfoddolwyr ar y platfform

Oherwydd rhwymedigaethau nawdd, fwy na thebyg y bydd gofyn i chi gofnodi ffigwr cyffredinol ar gyfer yr oriau yr ydych wedi eu gweithio ar y platfform. Sicrhewch fod gwirfoddolwyr yn gwybod nad oes diddordeb gennych yn eu horiau unigol, ond, er mwyn cael ffigur cywir ar gyfer cyfanswm y gwaith bod angen eu mewnbwn.
Anfonwyd neges e-bost wythnosol allan [gweler y geiriau mewn italeg isod] er mwyn eu hatgoffa a chadwyd y broses mor hwylus â phosibl trwy ddefnyddio ffurflen Microsoft Office syml: Torf Cymru Tracio Amser (office.com)

*"Bob dydd Llun byddwch yn cael neges e-bost i'ch promptio i gofnodi eich oriau gwaith*
*Cliciwch ar y ddolen i agor ffurflen o'r enw* ***Gwiriwr Amser Crowd Cymru***
*Cliciwch ar y botwm* ***Dechrau nawr*** *i ddechrau arni*
*Rhowch eich enw*
*Yn y bocs* ***dyddiad y gweithiwyd ar y platfform*** *rhowch ddyddiad y dydd Llun blaenorol*
*Yn y bocs* ***rhowch gyfanswm yr amser a dreuliwyd mewn oriau ar Crowd Cymru****, rhowch nifer yr oriau a weithiwyd yn ystod yr wythnos honno*
*Nid oes rhaid i chi fod yn hollol gywir, dim ond talfyrru eich amser i'r 15/30 munud agosaf*

***Ond, os fyddai'n well gennych gallwch lenwi'r ffurflen bob tro y byddwch yn defnyddio'r platfform – mae i fyny i chi yn llwyr. Nodwch os nad ydych wedi gwneud unrhyw waith, nid oes rhaid i chi lenwi'r ffurflen."***



Cymeradwywyd:

### *2.9* Adolygu

Unwaith y byddwch wedi cwblhau darn o waith trawsgrifio ac wedi clicio ar CYFLWYNO bydd yn cael ei anfon i gael ei adolygu.
Os yw'r adolygydd yn sylwi ar gamgymeriad, efallai y bydd yn dychwelyd y canfas atoch er mwyn i chi ei gywiro.
Edrychwch ar eicon y gloch ar frig yr Hafan. Os oes rhywbeth wedi cael ei ddychwelyd atoch bydd yn dangos yn y fan hon fel hysbysiad.

Fwy na thebyg y bydd yr adolygydd yn cywiro camgymeriadau bach gan gynnwys teipos, ar eich rhan.
Efallai na fydd gofyn adolygu delweddau.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n hawdd clicio ar CYFLWYNO yn ddamweiniol yn hytrach nag ARBED TAN WEDYN.
Os yw hyn y digwydd cofiwch roi gwybod i rywun. Mae'n ddigon hawdd dychwelyd y ddogfen atoch er mwyn i chi ei chwblhau.

Mae rhai prosiectau yn recriwtio gwirfoddolwyr fel adolygwyr.

# 3 Rheoli'r prosiect:
## Nodiadau i gynorthwyo gwasanaethau archif eraill sy’n datblygu prosiectau yn y dyfodol.

### 3.1 Recriwtio gwirfoddolwyr

Ar gyfer Prosiect #CrowdCymru, dechreuwyd trwy greu dwy restr sylfaenol; rhestr o sefydliadau hanes a threftadaeth yn y Deyrnas Unedig a rhestr o'r sefydliadau nad ydynt yn rhai treftadaeth fel Wythnos Addysg Oedolion , Age Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, Prifysgol y Drydedd Oes, Sefydliad y Merched, a grwpiau llesiant y cyngor lleol.
Roedden ni'n teimlo y byddai'r sefydliadau mawr hyn yn dir cyfoethog i ddenu mewnlifiad cychwynnol o wirfoddolwyr parod, ac, yn ôl ein gobeithion, roedd hyn yn sbardun i'n rhestr o wirfoddolwyr.

Roedden ni hefyd yn awyddus i recriwtio dau ddemograffig mwy arbenigol, sef y rheiny na fyddai fel arall yn meddwl am ddod i gyswllt â gwirfoddoli neu sefydliadau treftadaeth, a'r rheiny o bedwar ban byd [a chanddynt ddiddordeb yn hanes a/neu ddiwylliant Cymru].

Er mwyn denu'r rheiny na fyddai fel arall yn meddwl am ymgysylltu â gwirfoddoli neu dreftadaeth, aethom ati i ddechrau gyda Chymunedau Digidol Cymru ac arweiniodd hyn at nifer o gyflwyniadau i grwpiau a chysylltiad â chynlluniau adfywio cymunedol a chynhwysiant digidol. Aethom ati hefyd i estyn allan at gynlluniau lles cymunedol sydd wedi dod yn fwy amlwg ers effeithiau negyddol pandemig COVID-19, er enghraifft yr heriau iechyd meddwl, ynysu cymdeithasol ac unigrwydd a gorbryder ynghylch gadael y tŷ. Roeddem hefyd wedi estyn allan at nifer o grwpiau ysgrifennu creadigol gan fod casgliadau digidol y prosiect yn cynnwys llythyron a dyddiaduron.

Er mwyn denu carfan o bedwar ban byd, aethom ati i dargedu grwpiau treftadaeth Cymru o amgylch y byd, gan ddefnyddio'r rhestr gynhwysfawr ar wefan Fly2Wales fel man cychwyn. Roedden ni'n ddigon ffodus i gael atebion gan nifer o'r sefydliadau hyn gan gynnwys Cymdeithas Gymreig Gorllewin Awstralia, Red Dragon America, Cymdeithas Gymreig Gogledd America, Cymdeithas Gymreig Manitoba a Chymdeithas Gymreig Gorllewin New England (Massachusetts]. Roedden nhw'n ddigon caredig i rannu'n prosiect gyda'u haelodau, a'r canlyniad oedd bod nifer o wirfoddolwyr o Unol Daleithiau America, Awstralia, Canada ac un o Dde Korea wedi cofrestru!

### 3.2 Cofrestru

Roedd gofyn i bob gwirfoddolwr lenwi ffurflen gofrestru, a chrëwyd ein ffurflen ni gan ddilyn templed a gafwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.
Roedd y gofynion data canlynol wedi eu cynnwys:

- Oed [rhaid bod yn 16 oed neu'n hŷn], enw, cyfeiriad e-bost, y wlad lle'r ydych yn byw, statws cyflogaeth,
- Pam fod gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli?
- Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg? Ydych chi'n gallu ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg?
- Beth hoffech chi ei gael allan o'r prosiect hwn?
- Ble glywsoch chi am y cyfle i wirfoddoli gyda ni?
- *Yn unol â'n polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydyn ni'n monitro ceisiadau er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael eu trin yn deg, waeth beth fo'u rhyw, oed, hil, tarddiad ethnig/cenedlaethol, lliw, anabledd, crefydd neu gred.*
  *Fodd bynnag, cofiwch nad oes rhaid i chi ateb unrhyw un o'r tri chwestiwn canlynol*
  Rhyw: amlddewis
  Grŵp Ethnig: amlddewis
  Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?   Ydw   Nac ydw

Ceir sganiau o'r ddwy brif dudalen gyntaf ar dudalen 17 - mae trydedd dudalen yn cwblhau'r ffurflen a cheir y datganiad canlynol a bocsys ar gyfer y llofnod a'r dyddiad:

***Trwy lenwi'r bocs canlynol, rydych yn cadarnhau bod yr holl wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth***.

O dan hyn ceir y datganiad GDPR canlynol ynghyd â dolenni at ddau hysbysiad GDPR ar wahân; mae un yn ymwneud â manylion personol gwirfoddolwyr sy'n cael eu cadw ar weinydd diogel Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen [Archifau Gwent] ac un arall ynghylch eu manylion personol a gedwir ar y platfform digidol a gedwir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

***Cesglir eich data personol a chânt eu defnyddio at ddiben prosiect gwirfoddoli #CrowdCymru yn unig.***
***Byddwn yn prosesu'r data ar sail eich caniatâd, ac ni fyddwn yn eu rhannu gyda thrydydd parti.***
***Byddwn yn cadw'ch data personol am gyfnod y prosiect a chwe blynedd arall ar ben hynny.***

***Am ragor o wybodaeth gweler:***
PN143 - Hysbysiad Preifatrwydd Gwirfoddolwyr Archifau Gwent | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Rheoliad Cyffredinol Gwarchod Data - Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cawsom gyngor mewn perthynas â'r ddau hysbysiad gan Gydlynydd  Llywodraethiant Gwybodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Archifau Gwent Archives

Glamorgan Archives Archifau Morgannwg

Cardiff University Prifysgol Caerdydd — Special Collections and Archives Casgliadau Arbennig

LLGC NLW

Cronfa Treftadaeth — Heritage Fund

# #TORFCYMRU

## Ffurflen Gais Gyfrinachol Gwirfoddoli o Bell

**Manylion Personol**

Ydych chi'n 16 oed neu drosodd? **Ydw** ☐ **Na** ☐

Os 'Na', yn anffodus nid ydych ddigon hen i wirfoddoli ar y prosiect hwn, ond diolch i chi am ddangos diddordeb.

| | |
|---|---|
| Cyfenw | |
| Enwau cyntaf (yn llawn) | |
| Cyfeiriad ebost | |

**Grŵp Oedran:** ☐16 – 24 ☐ 25 – 34 ☐35 - 44 ☐ 45 - 54 ☐ 55 - 64 ☐65+

| | | |
|---|---|---|
| Ym mha wlad ydych chi'n byw? | | |
| Statws cyflogaeth (ticiwch) | Ddim mewn gwaith, addysg na hyfforddiant | ☐ |
| | Gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos | ☐ |
| | Di-waith | ☐ |
| | Cyflogedig | ☐ |
| | Wedi ymddeol | ☐ |
| | Arall (nodwch beth) | ☐ |

**Gwybodaeth Ategol**

Dywedwch wrthym pam fo gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli a nodwch wybodaeth am eich profiad, galluoedd, sgiliau neu wybodaeth.

**Ieithoedd**

Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg? **Cymraeg** ☐ **Saesneg** ☐

Ydych chi'n gallu ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg? **Cymraeg** ☐ **Saesneg** ☐

Nodwch bod y prosiect hwn ar gael yn y ddwy iaith.

**Dywedwch wrthym beth hoffech chi ei gael allan o'r prosiect hwn**

☐ Sgiliau newydd ☐ Gwella gwybodaeth ☐ Gwell rhagolygon gyrfa ☐ Iechyd a lles

☐ Cyfarfod pobl newydd ☐ Derbyn her ☐ Gwneud gwahaniaeth ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

Arall

**Lle gwelsoch/clywsoch am wirfoddoli gyda ni?**

Yn unol â'n polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydym yn monitro ceisiadau i sicrhau bod holl ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg, beth bynnag yw eu rhywedd, oedran, hil, tarddiad ethnig/cenedl, lliw, anabledd, crefydd neu gred.

**Nodwch, serch hynny, nad oes unrhyw reidrwydd arnoch i ateb unrhyw un o'r tri cwestiwn canlynol**

**Rhywedd:** ☐ Benyw ☐Gwryw ☐Trawsryweddol ☐Anneuaidd

ennyf derm arall

## 3.3 Dwyieithrwydd

Rydyn ni'n brosiect hollol ddwyieithog gan fod pob un o'n tri phartner - **Archifau Gwent, Archifau Morgannwg** a **Chasgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd** - yn sefydliadau Awdurdod Lleol yng Nghymru ac felly'n dod o dan ddeddfwriaeth Deddf yr Gymraeg.

Rhaid i bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru ddilyn y fframwaith hwn sy'n rhwymo'n gyfreithiol er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Felly mae popeth sy'n cael ei greu, ei gyhoeddi a'i bostio yn cael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf

## 3.4 Cefnogi gwirfoddolwyr

Un o'r cyfrifoldebau hanfodol, ond un o'r rhai sy'n cymryd y mwyaf o amser, yw sicrhau bod eich gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi trwy gydol oes y prosiect.
Yr allwedd yn y fan hon yw cysondeb, felly ceisiwch beidio â thorri amserlen gyswllt reolaidd, a cheisiwch gadw'r grŵp i siarad ar bob adeg.
Mae hyd yn oed un achos dibwys o lithro yn gallu arwain at ostyngiad sylweddol mewn cynhyrchedd.

Aethom ati i ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- **Neges E-bost Wythnosol** - yn ystod deuddeg mis cyntaf y prosiect, roedd rôl y Swyddog Prosiect Gwirfoddolwyr Digidol yn un lawn-amser. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y negeseuon e-bost yn fwy tebyg i gylchlythyron ac yn cynnwys yr adrannau canlynol: gair i atgoffa gwirfoddolwyr i wirio'u hamser, newyddion am y platfform, eitemau a rannwyd gan wirfoddolwyr [roedd nifer ohonynt yn haneswyr a oedd wedi cyhoeddi erthyglau, blogiau ayb.] a gwefannau a phrosiectau gwirfoddoli eraill a allai fod o ddiddordeb. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod estynedig hanerwyd ei horiau, ac felly roedd y cynnwys yn finimal.

- **Grŵp Facebook Preifat -** dyma un o'r dulliau gorau i'r gwirfoddolwyr gyfathrebu â'i gilydd mewn man caeedig a diogel. Yn ystod adegau tawel, mae'n bwysig parhau i bostio cynnwys, chwilio am unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb ac ychwanegu cwestiwn gyda'ch postiad er mwyn ysgogi sgwrs. Os na fydd gweinyddwyr y grŵp yn cadw porthiant actif a gweledol i fynd, gallai'r gwirfoddolwyr golli diddordeb a pheidio â mewngofnodi hyd yn oed. Dull arall i hyrwyddo sgwrs yw creu "sgyrsiau grŵp" penodol - aethom ati i ddewis pedwar testun, *Platfform* [ar gyfer sgyrsiau ymarferol, technegol], *Gwyliau, Cornel yr Anifeiliaid Anwes a Chwedlau Cymru*.

- **Sesiynau cymdeithasol ar-lein** - gellid gweld ein sesiynau hyfforddiant ar-lein fel sesiynau cymdeithasol. Roedd y grwpiau'n fach bob tro, a'r rheiny a oedd yn bresennol yn cael eu hannog i siarad ymhlith ei gilydd. Ond, cynhaliwyd ein digwyddiadau cymdeithasol go iawn cyntaf i nodi Wythnos Gwirfoddolwyr. Amserlennwyd nifer o slotiau ac anfonwyd holiadur Doodle allan yn gofyn i'r gwirfoddolwyr ddewis un. Er mai nifer isel a gymerodd y cyfle, aeth y sesiynau'n dda iawn, ac yn ffodus roedd yna un gwirfoddolwr ymhob sesiwn a oedd yn ddigon hyderus i arwain gweddill y grŵp. Dechreuwyd bob tro trwy siarad am y prosiect [wrth gwrs] ond yna sicrhawyd bod y grŵp yn symud ymlaen at bynciau eraill cyn y diwedd.



Cymeradwywyd:

## 3.5 Hyrwyddo a marchnata

Dechreuwch y broses hon bob tro gyda chynllun cyfathrebu cadarn. Roedd ein cynllun ni yn cynnwys y canlynol:

**Sefydlu** cyfrif Twitter i hyrwyddo cynnydd, amlygu ein casgliadau a meithrin cefnogaeth ar gyfer cyfrifon archifau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a threftadaeth eraill.

**Dod o hyd i ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn y sector a oedd yn cyd-fynd ag ethos ein prosiect ni a defnyddio ein dathliad ohonynt i hyrwyddo ein cynnwys.**
Yn ystod ein prosiect roedden ni wedi gallu cysylltu at nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Explore Your Archives, Mis Hanes Lleol, Wythnos Gweithredu ar Ddementia, Wythnos Gwirfoddolwyr a Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd.

Roedden ni hefyd wedi cyflwyno cais i gael y prosiect wedi ei restru ar restrau digwyddiadau ar wefannau ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion, Mis Hanes Pobl Ddu, a DPC/Digital Preservation Coalition.

**Lledwch y neges!**
Pryd bynnag y bydd yn bosibl, a lle bynnag y bydd yn bosibl, siaradwch â chymaint o bobl ag y gallwch chi. Gallwch wneud hyn trwy ofyn am roi cyflwyniad i sefydliadau neu trwy ofyn am fwrdd mewn digwyddiadau sydd â'r un ethos â'r prosiect. Mae uchafbwyntiau ein hymdrechion yn cynnwys siarad yn Fforwm Blynyddol Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru [ar gychwyn y prosiect ac ar ddiwedd y prosiect], siarad droeon â myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, cael ein cynnwys yng nghyfres darlithoedd cyhoeddus sefydliadau partner, a sawl gweithdy ar y cyd â Gwasanaeth Cefnogi Lles Caerdydd.

**Ysgrifennwch amdano!**
Mae blogiau yn ffordd ragorol o adrodd eich stori, a gorau po fwyaf. Roedden ni'n ddigon ffodus i gael cais i gyfrannu at gyfres o bostiadau ar flog Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru i olrhain cynnydd ein prosiect. I ddarllen yr hyn yr ydyn ni wedi ei bostio, rhowch Crowd Cymru yn y bocs chwilio ar yr Hafan.

**Cyflwynwch ddeunydd ar gyfer cyhoeddiadau**, yn amrywio o erthyglau llawn i dameidiau bach cryno [enghreifftiau ar dudalennau 20 a 21].











Archives & Records Association

Come and join us...

# arc magazine

March & April'23

No: 391
ISSN: 2632-7171

8 Parliamentary launch of the Campaign for Records – Democracy and Rights in the Digital Age

22 Getting the best out of Microsoft 365: The answer? Good Information Architecture

27 British Records Association awards 2022 Janette Harley Prize

31 Scaling Up 'Change Minds'



arcmagazine Industry News

## Crowdsourcing project for Welsh archives

#CrowdCymru is a digital volunteer crowdsourcing project funded by the National Lottery Heritage Fund and run jointly by Gwent Archives, Glamorgan Archives and Cardiff University Special Collections & Archives.

Accessed via a crowdsourcing platform established by the National Library of Wales, this bilingual digital system enables remote volunteers to tag, annotate and describe the digital heritage collections held within these exceptional repositories.

Archive services across Wales hold millions of irreplaceable records, but many are only minimally catalogued and therefore difficult to identify and find. This project harnesses the knowledge of individuals in communities across Wales and beyond, to enrich its collective heritage for the benefit of current and future generations - locally, nationally, and globally.

This project is completely digital, and available to anyone, anywhere with online access and volunteers control how much or how little they wish to contribute. It is hoped to engage the interest of those who might have wanted to become involved in volunteering with South Wales archives but are unable to travel to the sites, or live too far away.

The partners have made an exciting variety of collections available for the project. These include a collection of Cardiff Dockland Community Photographs taken between 1900-1920; the Edward Thomas Archive, a detailed personal archive of one of the lesser-known war poets; and the diaries of Priscilla Scott-Ellis, written while volunteering as a nurse during both the Spanish Civil War and WWII. More collections will be added as the project progresses.

For more information visit Twitter or contact Jennifer Evans (jennifer.evans@ gwentarchives.gov.uk), Digital Volunteering Project Officer.


Edward Thomas Archive. © Cardiff University Special Collections & Archives

Cardiff Dockland Community Photographs Collection. © Glamorgan Archives

26



Cymeradwywyd:







## #CrowdCymru

Mae **#Crowd Cymru** yn brosiect cyfrannu torfol digidol a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i gynnal ar y cyd gan Archifau Gwent, Archifau Morgannwg ac Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Caerdydd.

Gan ei gyrchu trwy lwyfan cyfrannu torfol a sefydlwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, bydd y system ddigidol ddwyieithog hon yn galluogi gwirfoddolwyr pell i dagio, anodi a disgrifio'r casgliadau treftadaeth digidol sydd o fewn yr ystorfeydd hyn. Mae gwasanaethau Archif ar draws Cymru yn cadw miliynau o gofnodion unigryw, ond ychydig ohonynt sydd wedi'u cofnodi'n ddigonol ac felly maen nhw'n anodd eu hadnabod a'u canfod. Bydd y prosiect hwn yn harneisio gwybodaeth unigolion o fewn cymunedau ar draws Cymru a'r tu hwnt, i gyfoethogi ein treftadaeth ar y cyd er budd cenedlaethau yn awr ac yn y dyfodol – yn lleol, yn genedlaethol, ac yn fyd-eang.

Mae'r prosiect hwn yn gwbl ddigidol, ac ar gael i unrhyw un, unrhyw le yn y byd os oes ganddynt fynediad at Wi-Fi. Hefyd, mae gwirfoddolwyr yn rheoli faint y maen nhw'n dymuno ei gyfrannu - boed fawr neu fach. Gobeithir ymgysylltu â diddordebau'r rheini a allai fod eisiau gwirfoddoli gydag archifau De Cymru ond nad ydynt yn gallu teithio i'r safleoedd, ac yn enwedig y rheini sydd â diddordeb yn nhreftadaeth Cymru ond yn byw dramor.

Mae'r partneriaid wedi sicrhau bod amrywiaeth eang o gasgliadau cyffrous ar gael ar gyfer y prosiect. Mae Archifau Morgannwg wedi cyflwyno Ffotograffau Cymunedol Dociau Caerdydd. Mae'r rhain yn bortreadau o unigolion a grwpiau, o gymuned dociau Caerdydd, a gymerwyd rhwng 1900 a 1920. Cymerwyd llawer ohonynt gan Fred Petersen o Stryd Bute, dyn o Ddenmarc a setlodd yng Nghaerdydd rywbryd ar ddiwedd y 19eg ganrif. Mae Casgliadau ac Archifau Arbennig Prifysgol Caerdydd wedi cyflwyno tri chasgliad. Dau ar gyfer trawsgrifio; Archif Edward Thomas [archif personol anarferol o eang a manwl o un o feirdd rhyfel a laddwyd ar faes y gad yn y Rhyfel Byd Cyntaf] a dyddiaduron cyfnod y rhyfel Priscilla Scott-Ellis [a ysgrifennwyd wrth weithio mewn ysbyty milwrol yn ystod Rhyfel Cartref Sbaen, ac yn Llundain yn ystod y Blits]. Mae Archifau Gwent wedi cyflwyno casgliad o ffotograffau hiraethus o ddyddiadau cynharaf Clwb Athletau a Rygbi Casnewydd sy'n dyddio yn ôl i 1891. Bwriada'r partneriaid sicrhau fod mwy o gasgliadau ar gael wrth i'r prosiect ddatblygu.

Defnyddia #CrowdCymru gyfrif Twitter gweithgar [@CrowdCymru] i hyrwyddo cynnydd, tynnu sylw at gasgliadau a meithrin cefnogaeth dros gyfrifon archifau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a threftadaeth eraill.

I gymryd rhan neu i glywed mwy am y prosiect, cysylltwch â:
Vicky Jones,
ARCW Business and Training Manager,
vicky.jones@llyfrgell.cymru
01970 643546
@crowdcymru



Cymeradwywyd:

## 3.6 Brandio

Aethom ati i ddylunio ein deunyddiau hyrwyddo ein hunain gan ddefnyddio Microsoft Publisher.
Gwnaed yr holl waith argraffu gan [Wasanaethau Argraffu Adeilad Bute Prifysgol Caerdydd]
Ceir taflenni dwyieithog, pop-yp a thystysgrif diolch isod.












Tystysgrif diolch ar ddiwedd y prosiect.

## 3.7 Gweithio ar brosiect a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae pob prosiect a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael cymorth ac arweiniad ar lefel uchel. Trefnodd swyddog penodol, a glustnodwyd ar gyfer ein cohort [o tua 20 prosiect cysylltiedig digidol], **gyfarfodydd prosiect misol** er mwyn cynnig cymorth gan gymheiriaid, a chyfle i bob aelod weld ei gilydd a siarad â'i gilydd. Gwahoddwyd prosiectau [ymlaen llaw] i rannu astudiaethau achos a mewnwelediad neu ddiweddaru'n gryno am gynnydd a mewnwelediad, a rhannu cwestiynau a heriau. Roedd y cyfarfodydd hefyd yn gyfle i roi mwy o fanylion am ofynion Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol lle bo hynny'n angenrheidiol, yn enwedig mewn perthynas ag adrodd, a thrwyddedu. Ar ben hyn, roedd **sesiynau cyswllt un-i-un** ar gael ar bob adeg, yn enwedig petai prosiect yn wynebu heriau, newidiadau neu oedi sylweddol.

Mae'r cymorth hwn yn fanteisiol gan fod gofyn cyflwyno nifer o adroddiadau manwl trwy gydol oes y prosiect er mwyn olrhain cynnydd a bod yn adnodd dysgu ar gyfer prosiectau'r dyfodol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys:
**Taflenni tracio ymgysylltiad â data chwarterol** i gofnodi nifer y bobl a'r sefydliadau yr ymgysylltwyd â hwy.
**Log adnoddau** i gofnodi'r holl adnoddau digidol.
**Canllaw Sut i...,** canllaw cam-wrth-gam ymarferol sy'n disgrifio sut y gwnaeth eich prosiect gyflawni ei weithgarwch gwirfoddoli digidol.
**Adroddiad diwedd grant cyffredinol**, sef ffurflen dempled safonol ar gyfer pob prosiect
**Gwerthusiad prosiect** sydd wedi ei deilwra'n arbennig at bob prosiect.
**Menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth,** sy'n darparu delweddau ar gyfer y gronfa ddata hon

## 3.8 Holiadur adborth

Nôl mor gynnar â mis Mehefin 2023, dechreuom feddwl am adolygu'r prosiect o bersbectif y gwirfoddolwyr.
Mae adolygiadau prosiect a gwerthusiadau ar ôl y prosiect yn hanfodol i lwyddiant unrhyw brosiect. Maen nhw'n rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i effeithiolrwydd y prosiect ac yn helpu adnabod meysydd i'w gwella. Maen nhw'n ffordd o ddysgu o'r gorffennol a gweithredu newidiadau ar gyfer dyfodol gwell. Ymhellach, maen nhw'n rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i'r prosiect ac yn gymorth i adnabod y bylchau a allai fod wedi codi yn ystod y prosiect. Mae'n gyfle i ddadansoddi'r prosiect ac i bennu beth sydd wedi gweithio'n dda a beth allai fod wedi cael ei wneud yn well.

Lluniwyd ein harolwg gan y Swyddog Prosiect, a Phartneriaid, a anfonodd y data wedyn ymlaen at Ddadansoddwr Data a Gwybodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Awgrymodd nifer o fân-newidiadau, ac yna adeiladodd yr arolwg ar ffurf ddigidol gan ddefnyddio SnapSurveys fel ei fod yn addas i'w anfon allan at bob gwirfoddolwr trwy e-bost gan ddefnyddio un ddolen syml.

**Anfonwyd y ddolen mewn neges e-bost yn gynnar ym mis Awst 2023 gyda'r neges ganlynol:**
*Mae CrowdCymru wrthi'n adolygu ansawdd ei brosesau gweinyddu a phrofiad gwirfoddolwyr, a pha mor llwyddiannus yr ydym yn darparu'r ddwy elfen ar eich cyfer. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn iawn a, lle nad ydym yn llwyddo cystal, sut y gallwn wella. Byddwn yn defnyddio canlyniadau'r holiadur i'n helpu i wella'ch profiad chi fel gwirfoddolwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni wrth lenwi'r ffurflen hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn cael ei phrosesu at ddiben yr arolwg hwn yn unig, a hynny mewn cydymffurfiaeth â Chyfraith Diogelu Data (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU/Deddf Diogelu Data 2018). Bydd #CrowdCymru yn casglu data personol sensitif dim ond os ydych yn dymuno cael rhagor o wybodaeth, cyngor neu gymorth gennym. Mae angen eich data personol sylfaenol arnom er mwyn i ni allu cysylltu â chi.*
*Am ragor o wybodaeth am y modd yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth, a'ch Hawliau, cliciwch yma ac yma.*

Cafwyd ymateb gan 31 o wirfoddolwyr [ychydig yn llai na 35%] ac roedd y canlyniadau'n bositif yn gyffredinol, fel y gallwch weld isod.
Er ei fod, yn ôl yr arfer, yn amlygu meysydd lle gallem fod wedi gwneud yn well.

| Canlyniadau arolwg adborth gwirfoddolwyr #CrowdCymru | |
|---|---|
| **Sut fyddech chi'n disgrifio eich profiad o #CrowdCymru hyd yn hyn?**<br>Da iawn (15) 50.0%<br>Da (11) 36.7%<br>Ddim yn dda nac yn wael (4) 13.3%<br><br>**Pa mor debygol ydych chi o argymell y prosiect hwn i bobl eraill?**<br>Tebygol iawn (13) 43.3%<br>Tebygol (11) 36.7%<br>Niwtral (6) 20.0%<br><br>**Beth oedd eich prif reswm dros wirfoddoli gyda ni?**<br>Dysgu rhywbeth newydd (9) 30.0%<br>Gwneud gwahaniaeth (8) 26.7%<br>Derbyn her newydd (6) 20.0%<br>Gwella fy ngwybodaeth (5) 16.7%<br>Arall (2) 6.7%<br>Cwrdd â phobl newydd (-)<br>Cyfleoedd gyrfa gwell (-)<br><br>**Ydych chi wedi dysgu sgiliau newydd?**<br>Ydw (17) 56.7%<br>Nac ydw (13) 43.3%<br><br>**Pa sgiliau ydych chi wedi eu gwella hyd yn hyn?**<br>Gwybodaeth am archifau digidol wedi gwella (15) 53.6%<br>Gwybodaeth am hanes De Cymru wedi gwella (12) 42.9%<br>Sgiliau TG wedi gwella (1) 3.6%<br>Llythrennedd wedi gwella (-)<br><br>**Ydych chi'n teimlo'n fwy hyderus nawr wrth ddefnyddio TG?**<br>Ydw (15) 51.7%<br>Nac ydw (14) 48.3% | **A ydy'ch teimlad o lesiant wedi gwella?**<br>Ydy (19) 63.3%<br>Nac Ydy(11) 36.7%<br><br>**Ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael eich cefnogi'n ddigonol gan y Swyddog Prosiect ers i chi gofrestru?**<br>Ydw (29) 96.7%<br>Nac Ydw (1) 3.3%<br><br>**Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r platfform?**<br>Bob mis (10) 34.5%<br>Sawl gwaith yr wythnos (9) 31.0%<br>Bob wythnos (8) 27.6%<br>Bob dydd (2) 6.9%<br><br>**Pa mor hawdd oedd defnyddio'r platfform?**<br>Hawdd (10) 33.3%<br>Ddim yn hawdd nac yn anodd (10) 33.3%<br>Hawdd iawn (5) 16.7%<br>Anodd (5) 16.7%<br>Anodd iawn (-)<br><br>**Ydych chi wedi teimlo eich bod wedi cael eich cefnogi'n ddigonol wrth ddefnyddio'r platfform torfoli digidol?**<br>Ydw (25) 83.3%<br>Nac ydw (5) 16.7%<br><br>**A fyddech chi'n fodlon dod i sesiwn ffocws ar-lein?**<br>Byddwn (21) 70.0%<br>Na fyddwn (9) 30.0% |



Cymeradwywyd:

## 3.9 Gwersi a ddysgwyd

- **Peidiwch â rhedeg allan o gynnwys**
  Oherwydd cyfres o faterion technegol a salwch staff ar fwy nag un achlysur, cafwyd cyfnodau o amser heb unrhyw gynnwys o gwbl ar y platfform. Mae gofyn gwneud gwaith helaeth yn ystod cyfnodau fel hyn er mwyn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo’r cyswllt a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Nid oes prinder prosiectau gwych i wirfoddolwyr mewn mannau eraill ac mae'n ddigon hawdd iddyn nhw adael am borfeydd gwyrddach cyn i chi wybod. Aethom ati i geisio goresgyn hyn trwy negeseuon e-bost hirach, mwy difyr a phostio mwy ar y dudalen Facebook yn ogystal â chynnwys llinynnau sgwrs er mwyn annog sgyrsiau.

- **Peidiwch ag addo unrhyw beth nad oes gennych y gallu i'w wireddu**
  Ar sawl achlysur, cafodd ein gwirfoddolwyr addewid y byddai rhai casgliadau penodol ar gael cyn gwybod yn sicr bod hynny'n wir. Oherwydd hynny, roedd yna dipyn o ymddiheuro a bwyta geiriau ac roedd y gwirfoddolwyr yn teimlo'n rhwystredig iawn.
  Er ei bod yn hawdd bod yn or-frwdfrydig ac yn gyffrous, gallai [a dylai] hyn fod wedi cael ei osgoi.

- **Peidiwch â thybio bod gwirfoddolwyr yn gwybod mwy nag yr ydych yn ei feddwl**
  Gwers a ddysgwyd yn uniongyrchol trwy nifer o sesiynau hyfforddiant. Oherwydd yr ofn bod yn nawddoglyd, cafwyd nifer o negeseuon e-bost dilynol yn gofyn am sesiwn arall neu'n holi cwestiynau sylfaenol iawn nad oedd wedi cael sylw. Mae'n well, felly, tybio nad yw gwirfoddolwyr yn gwybod unrhyw beth a dechrau oddi yno, hyd yn oed os oes rhai gwirfoddolwyr sy'n ymddangos yn alluog iawn yn teimlo'n rhwystredig am eu bod yn gorfod eistedd trwy'r wybodaeth sylfaenol. Mae lawer yn waeth colli gwirfoddolwyr sydd ddim yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol neu sydd ddim yn teimlo eu bod yn gallu gwneud y gwaith.

- **Rhowch ddigon o gyfleoedd i'r gwirfoddolwyr gymdeithasu â'i gilydd**
  Mae rôl y Swyddog Prosiect yn gymdeithasol iawn, ac yn golygu digon o ohebu gyda chronfa ddata fawr o wirfoddolwyr cyfeillgar sydd eisiau siarad. Fodd bynnag, buan y sylweddolwyd nad oedd y gwirfoddolwyr yn cael y cyfle i gymdeithasu â'i gilydd. Datryswyd hyn yn rhannol trwy greu’r Grŵp Facebook ond roedd tipyn o'n gwirfoddolwyr ddim yn dymuno ymgysylltu ar unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol. Felly, fel y soniwyd yn barod uchod, trefnwyd cyfres o sesiynau cymdeithasol ar-lein. Nid oedd y niferoedd a oedd yn cymryd rhan yn uchel, ac roedd y grwpiau'n fach, ac felly nid oeddem yn bwriadu cynnal mwy. Ond, roedd nifer o sylwadau mewn arolwg adborth yn sôn am ddiffyg siarad â'i gilydd ac felly ailystyriwyd a threfnwyd mwy. Y wers yn y fan hon oedd hyd yn oed os nad ydych yn llwyddo i gael nifer fawr i gymryd rhan, nid yw hynny'n rheswm dros ddiystyru anghenion yr ychydig sy'n cymryd rhan.

- **Fyddwch chi ddim yn llwyddo i wireddu popeth yr ydych am ei wireddu, ond mae'r enillion bach yn cyfrif**
  O'r cychwyn cyntaf, roeddem yn awyddus i ymgysylltu â'r rheiny na fyddai’n ystyried gwirfoddoli neu ddefnyddio'r archifau a'r sector treftadaeth fel arall. Felly, aethom ati i gysylltu â nifer o sefydliadau a oedd yn cynnal cynlluniau cynhwysiant digidol, adfywio cymunedol a chelf gymunedol, a chawsom wahoddiad i gyflwyno i nifer o grwpiau. Fodd bynnag, ni lwyddodd un ohonynt i ddenu un cofrestriad newydd. Nid yw hyn yn golygu nad oedd y rheiny a oedd yn bresennol wedi mwynhau'r profiad, a dweud y gwir roedd y gwrthwyneb yn wir. Roedd y sesiynau hyn yn fywiog ac yn ddifyr, ond nid oedd eu diddordebau yn cynnwys gwaith gwirfoddol mewn unrhyw gapasiti. Felly, yn hytrach na dod oddi yno'n teimlo'n rhwystredig ein bod wedi gwastraffu amser ac ymdrech, roeddem yn cydnabod y ffaith fod y grwpiau nawr yn gwybod mwy am y sector ac efallai y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau yn y dyfodol.

## 4 Gwybodaeth ategol yn ymwneud â chasgliadau penodol

## Archif Lenyddol Edward Thomas

Rhybudd ynghylch cynnwys sensitif: Yn y casgliad hwn mae yna gynnwys trallodus a allai fod yn sbardun i'r rheiny sy'n delio â materion iechyd meddwl ac emosiynol. Ystyriwch ddewis/aros am gasgliad arall os ydych yn credu y gallai hyn effeithio arnoch.

Nodwch, oherwydd y ffordd y mae'r papur wedi cael ei blygu gan Edward Thomas a'r ffordd y mae wedi ysgrifennu ar y papur, efallai na fydd y sganiau yn y drefn gywir ar gyfer eu darllen Dylai hyn wneud synnwyr wrth i chi ddarllen ymlaen - fel arfer gallwch weld pa dudalen sydd gyntaf [annwyl….] ac olaf [yn gywir...] ond efallai y bydd trefn y tudalennau eraill yn dod yn glir dim ond wrth eu darllen.

Yn gyffredinol, gyda'r llythyron wedi'u plygu yn y casgliad hwn, mae tudalen olaf y llythyr ar y chwith a'r dudalen gyntaf ar y dde

Cewch ragor o wybodaeth am E.T. yma:
Archif Edward Thomas - Casgliadau Arbennig ac Archifau - Prifysgol Caerdydd (cardiff.ac.uk)
https://edward-thomas-fellowship.org.uk/edward-thomas-life/
Dyddiadur Rhyfel Edward Thomas - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
https://www.poetryfoundation.org/poets/edward-thomas

## Dyddiaduron Adeg Rhyfel Priscilla Scott-Ellis

Rhybudd ynghylch cynnwys sensitif: Yn y dyddiaduron personol hyn ceir cynnwys o natur sensitif ac weithiau darluniadol iawn.
Dewiswch brosiect arall os ydych yn teimlo y gallai hyn eich tramgwyddo neu effeithio arnoch.

Mae yna dri mae sy'n benodol i'r casgliad hwn:

DYDDIAD Y DYDDIADUR
Ar rai o dudalennau'r dyddiadur, mae yna sawl dyddiad.
Y nod yw trawsgrifio un cofnod yn y dyddiadur [dyddiad] bob tro cyn cyflwyno hyd yn oed os yw hynny'n golygu cyflwyno'r dudalen nifer o weithiau
Byddwch yn gweithio ar un cofnod yn y dyddiadur, un dyddiad a'r testun cysylltiedig ar unrhyw un adeg
Yna byddwch yn cyflwyno'r cofnod hwnnw ac yna'n mynd yn ôl i mewn i weithio ar y dyddiad/yr adran arall
Os bydd cofnod mewn dyddiadur yn llifo dros nifer o dudalennau, trawsgrifiwch yr hyn yr ydych yn ei weld ar y dudalen gan gofio efallai y bydd gofyn i chi edrych yn ôl ar y dudalen flaenorol i weld beth yw'r dyddiad
Efallai y bydd sawl cofnod ar gyfer yr un dyddiad, ond ni ddylai fod gennych sawl dyddiad ar yr un cofnod

LLE
Ychwanegwch unrhyw enwau llefydd y sonnir amdanynt yn y testun
Ychwanegwch un enw lle ar y tro yn unig

Defnyddiwch y botwm YCHWANEGU LLE ARALL er mwyn ychwanegu mwy
SYLWADAU O BWYS
Mae croeso i chi ychwanegu pobl a digwyddiadau y sonnir amdanynt yn y testun
Ychwanegwch un enw neu ddigwyddiad ar y tro yn unig
Defnyddiwch y botwm YCHWANEGU SYLWAD ARALL O BWYS er mwyn ychwanegu mwy

Os oes unrhyw gynnwys wedi cael ei ddileu gyda chreon lliw tebyg i las yna gallwch ei roi mewn cromfachau crwn {wedi'i groesi allan}

Cewch ragor o wybodaeth am P.S.E. yma:
https://en.wikipedia.org/wiki/Priscilla_Scott-Ellis
https://spartacus-educational.com/SPscottE.htm
https://www.npg.org.uk/collections/search/person/mp72748/hon-esyllt-priscilla-pip-hanson-nee-scott-ellis
https://www.oxforddnb.com/display/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-76869;jsessionid=34D9C06A228F1C8EB83E4381267EE544arddangos/10.1093/ref:-9780198614128-e-76869

## Archif Ffotograffig Cymuned Dociau Caerdydd

Yn y casgliad hwn ceir delweddau sy'n dangos amrywiaeth o bobl o gefndiroedd ethnig gwahanol.
Mae'n bwysig ein bod yn disgrifio'r delweddau mor gywir â phosibl fel cymorth i bobl ddod o hyd i wybodaeth berthnasol.

Dyma ffordd dderbyniol y prosiect o ddisgrifio pobl yn y delweddau:
***Du** (gyda phriflythyren)*
*Enghraifft: Ffotograff o ddyn Du ifanc ar ei eistedd, ochr yn ochr â dyn Gwyn, yn sefyll.*
***Gwyn** (gyda phriflythyren)*
*Enghraifft: Ffotograff o grŵp o ddynion Gwyn ifainc, yn eistedd ac yn sefyll.*
***Amlethnig** (gyda phriflythyren; un gair; defnyddiwch Amlethnig yn lle hil gymysg pan fydd hi'n amlwg fod rhywun ag ethnigrwydd cymysg)*
*Enghraifft: Ffotograff o fenyw Amlethnig yn dal plentyn bach.*
***Cefndir lleiafrif ethnig arall** (dim priflythyren; defnyddiwch hyn ar gyfer pobl o gefndir lleiafrif ethnig arall neu pan na fydd yn glir beth yw hil y bobl yn y ffotograff). Enghraifft: Ffotograff o fenyw ifanc o leiafrif ethnig, yn eistedd.*
***O bosibl unigolyn Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig** (priflythrennau mewn mannau; defnyddiwch pan na fydd hil y bobl yn y ffotograff yn glir)*
*Enghraifft: Ffotograff o ddyn, o bosibl unigolyn Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig, yn sefyll wrth goeden*

Cewch ragor o wybodaeth am y casgliad hwn yma:
Ffotograffau cymuned dociau Caerdydd - Archifau Morgannwg (glamarchives.gov.uk)
https://www.historicdockproject.co.uk/
https://en.wikipedia.org/wiki/Cardiff_Docks
Hanes - Cardiff Harbour Authority

## Archif Ffotograffig Clwb Rygbi ac Athletau Casnewydd

Meysydd newydd yn y casgliad hwn yw'r meysydd CAPSIWN ac UNIGOLYN.
Mae'r maes capsiwn ar gyfer unrhyw destun mewn print neu lawysgrifen sy'n ymddangos ar y ffotograff neu, yn fwy tebygol, ar y mownt.
Ar lawer o'r ffotograffau hyn mae enwau'r chwaraewyr wedi eu rhestru ac felly mae yna wahoddiad i chi osod bocs dros ben unigolyn ac ychwanegu eu henw.
Fel hyn, mae eu henwau'n cael eu tagio ar gyfer y ddelwedd yn ei chyfanrwydd ond hefyd i'w hwynebau.
Cewch ragor o wybodaeth am y casgliad hwn yma:
https://en.wikipedia.org/wiki/Rodney_Parade
http://www.historyofnewport.co.uk/
https://www.welshathletics.org/en/page/welsh-athletics-history-timeline
https://mbact.org.uk/wp-content/uploads/2021/01/Fourteen-locks-past-present.pdf
https://mbact.org.uk/wp-content/uploads/2021/01/Fourteen-locks-booklet-2017.pdf
https://www.britishlibrary.cn/en/articles/the-history-of-womens-football-in-the-uk/
https://sites.duke.edu/wcwp/2016/01/22/the-forgotten-early-history-of-womens-soccer/

## Llyfrau Llythyron Deddf y Tlodion yn ymwneud â Bwrdd Gwarcheidwaid Y Fenni

Cyflwyniad gan Paul Carter [Archifau Cenedlaethol] “The Voices of the Victorian Poor” https://bit.ly/3dJEwak
Blog gan Paul Carter: https://blog.nationalarchives.gov.uk/record-linkage-across-19th-century-poverty-and-pauperism/

Mae'n sôn bod rhywfaint o gynnwys y casgliad hwn yn gallu achosi gofid
https://www.nationalarchives.gov.uk/education/resources/workhouse-voices-creative-writing/
https://www.nationalarchives.gov.uk/education/resources/victorian-homes/
https://www.nationalarchives.gov.uk/education/resources/victorian-industrial-towns/?show=all#more

# 5 Adnoddau defnyddiol

I’r rheiny sy'n dymuno ychwanegu ychydig o ymchwil at eu gwaith
**Canllawiau ymchwilio Archifau Morgannwg**: Canllawiau Ymchwil - Archifau Morgannwg (glamarchives.gov.uk)
**Canllawiau ymchwilio Archifau Gwent**: Adnoddau a Chanllawiau | Archifau Gwent (gwentarchives.gov.uk)
**Canllawiau ymchwilio Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd**:
Canllawiau am adnoddau - Casgliadau Arbennig ac Archifau - Prifysgol Caerdydd (cardiff.ac.uk)
**Tocyn Darllenydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru:** Tocynnau Darllen - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
**Cymorth i ddarllen terminoleg y gorffennol mewn ffordd wahanol wrth chwilio am gynnwys LHDTC+**
https://lgbtqcymru.swansea.ac.uk/
https://glamarchives.gov.uk/wp-content/uploads/2018/08/Queering-Glamorgan-28Aug2018.pdf
https://www.routledge.com/A-Practical-Guide-to-Searching-LGBTQIA-Historical-Records/Shopland/p/book/9780367564582
https://www.open.edu/openlearn/history-the-arts/history/unlocking-the-diversity-the-past

**Cymorth i chwilio am hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig**
https://cdn.nationalarchives.gov.uk/documents/education/bame-finding-aid.pdf
https://libguides.hull.ac.uk/diversity-in-archives/ethnic-minorities
https://www.racearchive.org.uk/collections/

## 6 Manylion cyswllt


**Jennifer Evans**
**Swyddog Prosiect Gwirfoddolwyr Digidol CrowdCymru**
Jennifer.Evans@GwentArchives.gov.uk
Tel/ Ffôn 01495 742450

**Paul McCann**
**Cymorth Technegol CrowdCymru**
[Rheolwr Prosiectau Ymchwil/Llyfrgell Genedlaethol Cymru]
paul.mccann@llyfrgell.cymru
Tel/Ffôn 01970 632423


## Dolenni prosiectau ar-lein:

https://gwentarchives.gov.uk/cy/partneriaethau-a-phrosiectau/crowdcymru/
https://padlet.com/jenniferevans17/crowdcymru-cymraeg-yo5349368e0leygz
https://twitter.com/crowdcymru

**Mae'r adroddiad hwn yn gywir adeg cau prosiect peilot #CrowdCymru ar 30 Tachwedd 2023.**
**Fodd bynnag, sylwer y bydd y platfform torfoli yn cael ei ddatblygu'n barhaus ar sail adborth defnyddwyr.**


Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o'r enw ***#CrowdCymru: Llawlyfr y Platfform a Nodiadau am y Prosiect***, a ysgrifennwyd gan Jennifer Evans, o dan https://creativecommons.org/licenses/by/4.0/




Cymeradwywyd: